# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

**Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.**

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

Adran Gwaith
a Phensiynau

# Canllaw i rieni a gwarcheidwaid



Mae'r daflen hon yn cynnwys gwybodaeth a ddewiswyd o **www.gov.uk** ar 2 Mai 2018. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf bob amser ar gael ar-lein. Mae'r daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig ac ni ddylid dibynnu arno fel datganiad llawn o'r gyfraith yn y maes hwn.

Canllaw i rieni a gwarcheidwaid

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Eich helpu i mewn i waith | 3 |
| Eich hawliau yn y gwaith | 5 |
| Cymorth ariannol | 12 |
| Gofalu am blant os ydych yn ysgaru neu'n gwahanu | 17 |



Argraffwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau gan ddefnyddio'r testun a gymerwyd o **www.gov.uk** ar 2 Mai 2018.



© Hawlfraint y Goron



ISBN 978-1-78659-065-7

**DWP23W** (Mai 2018)


### Codau QR

Dyma godau bar sgwâr sy'n agor gwefan benodol, gan arbed i chi deipio cyfeiriadau gwe hir.

Gallwch gael ap am ddim i sganio codau QR ar y rhan fwyaf o ffonau clyfar.

# Eich helpu i mewn i waith

## I ddod o hyd i swydd

www.gov.uk/chwilio-am-swydd

Gallwch chwilio a gwneud cais am swyddi llawn amser neu ran-amser.

## Rhaglenni chwiliad gwaith

www.gov.uk/moving-from-benefits-to-work/job-searchprogrammes

Gall eich anogwr gwaith y Ganolfan Byd Gwaith roi rhagor o wybodaeth i chi am raglenni a all eich helpu i baratoi ar gyfer, dod o hyd i ac aros mewn gwaith.

### Y Rhaglen Waith

Ar 1 Ebrill 2017 gwnaeth y Rhaglen Waith rho'r gorau i gymryd cyfranogwyr newydd. Os ydych eisoes yn cymryd rhan, gallwch barhau i wneud hynny am hyd at 2 flynedd o'r dyddiad yr oeddech wedi ymuno.

Bydd yn rhaid i chi fynychu cyfweliad asesu gyda'r Ganolfan Byd Gwaith os ydych chi wedi bod ar y Rhaglen Waith am 2 flynedd. Bydd y cyfweliad yn eich helpu i gynllunio, paratoi a dod o hyd i waith.

### Help ar gyfer mathau penodol o waith

Mae academïau gwaith seiliedig ar sector yn cynnig hyfforddiant a phrofiad gwaith am hyd at 6 wythnos mewn diwydiant neu faes gwaith penodol.

Mae'r rhan fwyaf o academïau hefyd yn cynnig cyfweliad gwarantedig ar gyfer swydd neu brentisiaeth.

Maent ar gael i bobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (os ydych yn y Grŵp Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith).

### Clybiau Gwaith

Gall unrhyw un sy'n ddi-waith ymuno â Chlwb Gwaith. Maent yn cael eu rhedeg gan sefydliadau lleol fel cyflogwyr a grwpiau cymunedol, ac yn rhoi cyfle i chi rannu gwybodaeth, profiad ac awgrymiadau chwiliad gwaith.

## Cymorth i rieni a gofalwyr

www.gov.uk/moving-from-benefits-to-work/help-for-parents-and-carer

Gall eich anogwr gwaith y Ganolfan Byd Gwaith ddweud wrthych am gymorth y gallwch ei gael i'ch helpu i gyfuno gwaith â gofalu am blant neu gyfrifoldebau gofalu.

### Cymorth i rieni

Gall rhieni gael cymorth gyda chostau gofal plant wrth symud o fudd-daliadau i waith.

# Eich hawliau yn y gwaith

## Tâl mamolaeth ac amser i ffwrdd

www.gov.uk/maternity-pay-leave

Pan fyddwch yn cymryd amser i ffwrdd i gael babi efallai y byddwch yn gymwys i:

### Absenoldeb Mamolaeth Statudol

Mae Absenoldeb Mamolaeth Statudol yn 52 wythnos. Mae'n cynnwys:

- 'Absenoldeb Mamolaeth Cyffredin' – y 26 wythnos gyntaf
- 'Absenoldeb Mamolaeth Ychwanegol' – y 26 wythnos ddiwethaf

Nid oes rhaid i chi gymryd 52 wythnos, ond rhaid i chi gymryd pythefnos o absenoldeb ar ôl i'ch babi gael ei eni (neu 4 wythnos os ydych yn gweithio mewn ffatri).

### Tâl Mamolaeth Statudol (SMP)

Telir SMP am hyd at 39 wythnos. Byddwch yn cael:

- 90% o'ch enillion wythnosol ar gyfartaledd (cyn treth) ar gyfer y 6 wythnos gyntaf
- £145.18 neu 90% o'ch enillion wythnosol ar gyfartaledd (pa un bynnag yw'risaf) ar gyfer y 33 wythnos nesaf

Telir SMP yn yr un ffordd â'ch cyflog (e.e. bob mis neu'n wythnosol). Bydd Treth ac Yswiriant Gwladol yn cael ei ddidynnu.

## Lwfans mamolaeth

www.gov.uk/maternity-allowance

Fel arfer, nid yw Lwfans Mamolaeth yn cael ei dalu i chi os nad ydych yn gymwys i gael Tâl Mamolaeth Statudol.

Mae'r swm y gallwch ei gael yn dibynnu ar eich cymhwyster.

Gallwch hawlio Lwfans Mamolaeth cyn gynted ag y byddwch yn feichiog am 26 wythnos. Gall taliadau ddechrau 11 wythnos cyn i'ch babi gael ei eni.

## Yr hyn a gewch

Mae'r swm y gallwch ei gael yn dibynnu ar eich cymhwyster. Gallech gael naill ai:

- £145.18 yr wythnos neu 90% o'ch enillion wythnosol ar gyfartaledd (p'un bynnag sy'n llai) am hyd at 39 wythnos
- £27 yr wythnos am hyd at 14 wythnos (os yw eich babi yn cael ei eni ar neu ar ôl 27 Gorffennaf 2014)

Telir Lwfans Mamolaeth bob 2 neu 4 wythnos.

## Cymhwyster

### Lwfans Mamolaeth am 39 wythnos

Efallai y byddwch yn cael Lwfans Mamolaeth am 39 wythnos os yw un o'r canlynol yn berthnasol:

- ydych yn gyflogedig, ond ni allwch gael Tâl Mamolaeth Statudol
- rydych yn hunangyflogedig ac yn talu Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 (yn cynnwys Yswiriant Gwladol Gwirfoddol) .
- rydych wedi rhoi'r gorau i weithio yn ddiweddar

Yn y 66 wythnos cyn y disgwylir i'ch babi gael ei eni, rhaid i chi hefyd wedi bod:

- yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig am o leiaf 26 wythnos
- ennill (neu'n cael ei ystyried fel ennill) o leiaf £30 yr wythnos yn ystod unrhyw gyfnod o 13 wythnos - nid oes yn rhaid i'r wythnosau fod gyda'i gilydd

Efallai y byddwch yn dal i fod yn gymwys os ydych wedi rhoi'r gorau i weithio yn ddiweddar. Nid yw o bwys os ydych wedi cael swyddi gwahanol neu gyfnodau gwahanol o ddiweithdra.

Defnyddiwch y cyfrifiannell hawl mamolaeth i weld os ydych yn gymwys.

Cewch wybod mwy yn: www.gov.uk/pay-leave-for-parents

### Lwfans Mamolaeth am 14 wythnos

Efallai y byddwch yn cael Lwfans Mamolaeth am 14 wythnos os am o leiaf 26 wythnos yn y 66 wythnos cyn i'ch babi gael ei eni:

- rydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil
- nad ydych yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig
- rydych yn cymryd rhan yn fusnes hunangyflogedig eich priod neu'ch partner sifil

- mae'r gwaith rydych yn ei wneud ar gyfer y busnes ac yn ddi-dâl
- mae'ch priod neu'ch partner sifil wedi'i gofrestru fel hunangyflogedig gyda Chyllid a Thollau EM a dylent dalu Yswiriant Gwladol Dosbarth 2
- mae'ch priod neu'ch partner sifil yn gweithio fel person hunangyflogedig
- nid ydych yn gymwys i gael Tâl Mamolaeth Statudol neu swm uwch Lwfans Mamolaeth (ar gyfer yr un beichiogrwydd)

**Os ydych yn colli'r babi**

Efallai y byddwch yn dal yn gymwys os yw'r babi naill ai:

- yn farw-anedig o ddechrau'r 24ain wythnos y beichiogrwydd
- wedi'i eni'n fyw ar unrhyw adeg yn ystod y beichiogrwydd

## Absenoldeb tadolaeth a thâl

www.gov.uk/paternity-pay-leave

Pan fyddwch yn cymryd amser i ffwrdd oherwydd bod eich partner yn cael babi, yn mabwysiadu plentyn neu'n cael babi drwy drefniant benthyg croth efallai y byddwch yn gymwys i:

- 1 neu 2 wythnos o Absenoldeb Tadolaeth Arferol a dalwyd
- Absenoldeb Rhieni a Rennir a Thâl

Efallai na fyddwch yn cael y ddau absenoldeb a thâl, ac mae yna reolau ar sut i hawlio a phryd y gall eich absenoldeb ddechrau. Gallwch gael rhagor o wybodaeth a'r ffurflenni sydd eu hangen i chi ei chwblhau ar **www.gov.uk/paternity-pay-leave**

**Absenoldeb ar gyfer apwyntiadau cynenedigol**

Gallwch gymryd absenoldeb di-dâl i fynd gyda menyw feichiog i 2 apwyntiad cynenedigol os ydych yn:

- tad y babi
- priod neu bartner sifil y fam feichiog
- mewn perthynas hirdymor gyda'r fam feichiog
- y rhiant a fwriedir (os ydych yn cael babi drwy drefniant benthyg croth)

Gallwch gymryd hyd at 6 awr a hanner fesul apwyntiad. Gall eich cyflogwr benderfynu ar roi'n hirach i chi.

Gallwch wneud cais am absenoldeb ar unwaith os ydych yn gyflogai parhaol. Bydd angen i chi fod wedi bod yn gwneud gwaith am 12 wythnos cyn i chi fod yn gymwys os ydych yn weithiwr asiantaeth.

## Absenoldeb Rhieni a Rennir a Thâl

www.gov.uk/shared-parental-leave-and-pay

Efallai y bydd gennych hawl i Absenoldeb Rhiant a Rennir (SPL) a Thâl Rhieni a Rennir Statudol (ShPP) os ydych yn cael babi neu'n mabwysiadu plentyn.

Mae'n rhaid i SPL a ShPP gael ei gymryd rhwng genedigaeth y babi a'r pen-blwydd gyntaf (neu o fewn blwyddyn o fabwysiadu).

Cewch wybod mwy yn: **www.gov.uk/shared-parental-leave-and-pay**

## Absenoldeb Rhieni

www.gov.uk/parental-leave

Gall gweithwyr cymwys gymryd absenoldeb rhieni di-dâl i ofalu am les eu plentyn, e.e. i:

- treulio mwy o amser gyda'u plant
- edrych ar ysgolion newydd
- ymgartrefu plant mewn trefniadau gofal plant newydd
- treulio mwy o amser gyda theulu – e.e. ymweld â theidiau a neiniau

Mae eu hawliau cyflogaeth (fel yr hawl i dâl, gwyliau a dychwelyd i swydd) yn cael eu diogelu yn ystod absenoldeb rhieni.

## Hawliau cyflogeion beichiog

www.gov.uk/parental-leave

Mae gan gyflogeion beichiog 4 prif hawl cyfreithiol:

- amser i ffwrdd â thâl ar gyfer gofal cyn-geni
- absenoldeb mamolaeth
- tâl mamolaeth
- diogelwch rhag triniaeth annheg, gwahaniaethu neu ddiswyddo

Nid yw 'gofal cyn-geni' yn apwyntiadau meddygol yn unig - gall hefyd cynnwys dosbarthiadau cyn-geni neu rhianta os argymhellwyd gan feddyg neu fydwraig.

## Gweithio'n hyblyg

www.gov.uk/flexible-working

Mae gweithio'n hyblyg yn ffordd o weithio sy'n addas ar gyfer anghenion cyflogeion, e.e. cael amserau dechrau a gorffen hyblyg, neu'n gweithio o adref.

Mae rheolau gweithio'n hyblyg yn wahanol yng Ngogledd Iwerddon.

Mae gan bob cyflogai'r hawl gyfreithiol i ofyn am weithio'n hyblyg - nid dim ond rhieni a gofalwyr. Mae hyn yn cael ei adnabod fel 'gwneud cais statudol'.

Rhaid i gyflogeion fod wedi gweithio i'r un cyflogwr am o leiaf 26 wythnos i fod yn gymwys.

### Beth sy'n rhaid i gyflogwyr ei wneud

Rhaid i gyflogwyr ymdrin â cheisiadau mewn 'modd rhesymol'.

Mae enghreifftiau o ymdrin â cheisiadau mewn modd rhesymol yn cynnwys:

- asesu manteision ac anfanteision y cais
- cynnal cyfarfod i drafod y cais gyda'r cyflogai
- cynnig proses apelio

Gall cyflogwr wrthod cais os oes ganddynt rheswm busnes da dros wneud hynny.

## Absenoldeb mabwysiadu a thâl

www.gov.uk/adoption-pay-leave

Pan fyddwch yn cymryd amser i ffwrdd i fabwysiadu plentyn efallai y byddwch yn gymwys i:

- Absenoldeb Mabwysiadu Statudol
- Tâl Mabwysiadu Statudol

Mae rheolau ynghylch pryd a sut i hawlio eich absenoldeb â thâl, ac os ydych am newid eich dyddiadau.

## Help i dalu am ofal plant

www.gov.uk/help-with-childcare-costs

Gallwch gael help i dalu am ofal plant os darperir y gofal gan:

- gofalwr plant, cynllun chwarae, meithrynfa neu glwb cofrestredig
- gofalwr plant gydag asiantaeth gofal plant sydd wedi ei chofestru gydag Estyn
- ysgol cofrestredig
- gweithiwr gofal yn y cartref sy'n gweithio i asiantaeth gofal cartref cofrestredig

Rydym yn galw hyn yn 'ofal plant wedi ei gymeradwyo'.

### Talebau gofal plant

Efallai y bydd eich cyflogwr yn gallu eich helpu gyda chostau gofal plant cymeradwy gan ddefnyddio talebau gofal plant neu gynlluniau eraill, er enghraifft meithrinfa staff.

Defnyddiwch y cyfrifiannell talebau gofal plant i weld sut y bydd talebau gofal plant gan eich cyflogwr yn effeithio ar eich credydau treth. Cewch wybod mwy yn
www.gov.uk/childcare-vouchers-better-off-calculator

## Grant Gofal Plant

www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk

Gallwch dderbyn Grant Gofal Plant (CCG) fyny hyd at 85% o gost eich gofal plant os oes gennych blant sydd mewn gofal plant cofrestredig neu gymeradwy.

Ni fyddwch yn gymwys i dderbyn y grant yma os ydych chi neu eich partner yn hawlio elfen gofal plant o Gredydau Treth Gwaith, Credyd Cynhwysol, Gofal Plant di-dreth oddi wrth Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi neu grantiau gofal plant a ariannwyd gan GIG.

Uchafswm y Grant Gofal Plant sydd ar gael yw:

### Myfyrwyr llawn-amser

- £161.50 yr wythnos am un plentyn; neu
- £274.55 yr wythnos am ddau neu fwy o blant.

### Myfyrwyr rhan-amser

- £121.13 yr wythnos am un plentyn; neu
- £205.91 yr wythnos am ddau neu fwy o blant.

Mae eich hawl i CCG yn dibynnu ar eich incwm, ac incwm eich partner, plant ac unrhyw ddibynyddion eraill. Mae’r swm CCG y gallwch ei gael fel myfyriwr rhan-amser hefyd wedi ei seilio ar dwyster eich cwrs.

## Credyd Treth Gwaith

www.gov.uk/working-tax-credit

Gallech gael Credyd Treth Gwaith os yw'r naill un neu'r llall yn berthnasol:

- ydych rhwng 16 a 24 oed a bod gennych blentyn neu anabledd cymhwysol
- ydych yn 25 oed neu'n hŷn, gyda neu heb blant

Rhaid i chi:

- gweithio nifer penodol o oriau'r wythnos
- cael eich talu am y gwaith rydych yn ei wneud (neu'n disgwyl ei wneud)
- cael incwm is na lefel benodol

Mae swm sylfaenol Credyd Treth Gwaith hyd at £1,960 y flwyddyn - gallech gael mwy (neu lai) yn dibynnu ar eich amgylchiadau ac incwm.

Cewch wybod mwy yn: **www.gov.uk/working-tax-credit**

Ni allwch hawlio credydau treth a Chredyd Cynhwysol ar yr un pryd.

## Credyd Treth Plant

www.gov.uk/child-tax-credit

Gallech hawlio Credyd Treth Plant os ydych yn gyfrifol am blant naill ai:

- yn 16 oed neu'n iau - gallwch hawlio hyd at 31 Awst ar ôl eu pen-blwydd yn 16 oed
- dan 20 oed ac mewn addysg neu hyfforddiant cymwys

Nid oes angen i chi fod yn gweithio i hawlio Credyd Treth Plant. Dim ond un aelwyd y gall gael Credyd Treth Plant ar gyfer plentyn.

Mae Credyd Treth Plant yn cael ei ddisodli gan Gredyd Cynhwysol. Fel rheol, dim ond os nad ydych yn byw mewn ardal Credyd Cynhwysol y gallwch hawlio Credyd Treth Plant.

Cewch wybod mwy yn: **www.gov.uk/child-tax-credit**

## Budd-dal Plant

www.gov.uk/child-benefit

Byddwch yn cael Budd-dal Plant os ydych yn gyfrifol am blentyn o dan 16 oed (neudan 20 oed os ydynt yn aros mewn addysg neu hyfforddiant cymeradwy).

Dim ond un person sydd yn gallu cael Budd-dal Plant ar gyfer plentyn.

Mae'n rhaid i chi roi gwybod am unrhyw newid mewn amgylchiadau i'r Swyddfa Budd-dal Plant.

Efallai y bydd rhaid i chi dalu tâl treth os bydd eich incwm unigol chi neu'ch partner yn fwy na £50,000.

Gallwch ddewis i beidio â chael taliadau Budd-dal Plant, ond dylech barhau i gwblhau'r ffurflen gais oherwydd:

- bydd yn eich helpu i gael credydau Yswiriant Gwladol sy'n cyfrif tuag at eich Pensiwn y Wladwriaeth
- bydd yn sicrhau bod eich plentyn wedi'i gofrestru i gael rhif Yswiriant Gwladol pan fyddant yn 16 oed.

Cewch wybod mwy yn: **www.gov.uk/child-benefit**

## Lwfans Gwarcheidwad

www.gov.uk/guardians-allowance

Gallech gael Lwfans Gwarcheidwad os ydych chi'n magu plentyn pan mae eu rhieni wedi marw. Efallai y byddwch hefyd yn gymwys os oes un rhiant sy'n goroesi.

Cyfradd Lwfans Gwarcheidiad yw £16.55 yr wythnos. Fe'i gewch ar ben Budd-dal Plant ac mae'n ddi-dreth.

### Cymhwyster

Efallai byddwch hefyd yn gymmwys os:

- ydych yn magu plentyn rhywun arall
- mae rhieni'r plentyn wedi marw (gweler yr amodau ar gyfer un rhiant goroesi isod)
- rydych yn gymwys am Fudd-dal Plant

- yw un o'r rhieni wedi geni yn y DU (neu oedd yn byw yn y DU ers yr oedran 16 am oleiaf 52 wythnos mewn unrhyw 2 flynedd)

Os ydych yn mabwysiadu plentyn efallai y byddwch yn dal i gael Lwfans Gwarcheidwad cyn belled â'ch bod yn ei gael cyn i chi mabwysiadu'r plentyn.

## Un rhiant wedi goroesi

Gallwch dderbyn Lwfans Gwarcheidwad os yw un o'r canlynol yn wir:

- nad ydych yn gwybod ble mae'r rhiant sy'n goroesi
- yw rhieni wedi ysgaru neu fod eu partneriaeth sifil wedi ddiddymu, nid oes gan y rhiant goroesi sydd yn y ddalfa ac nid yw'n cynnal y plentyn ac nid oes gorchymyn llys yn ei le yn dweud dylai hwy
- nid oedd y rhieni wedi priodi, mae'r fam wedi marw a'r tad yn anhysbys
- bydd y rhiant sy'n goroesi yn y carchar am o leiaf 2 flynedd o dyddiad y farwolaeth y rhiant arall
- y rhiant sy'n goroesi mewn ysbyty drwy orchymyn llys

## Sut i wneud cais

I osgoi colli arian, gwnewch gais am Lwfans Gwarcheidwad cyn gynted â ddaw'r plentyn i fyw gyda chi.

1. Llenwch y ffurflen hawlio (BG1) ar www.gov.uk/guardians-allowance
2. Anfonwch hon i'r Uned Lwfans Gwarcheidwad gyda thystysgrif geni lawn y plentyn a thystysgrifau marwolaeth y rhieni (neu dystysgrif os yw un rhiant wedi marw) - anfonwch rai gwreiddiol.

Dylech hefyd wneud cais am Fudd-dal Plant cyn gynted ag y bo modd.

Gall Lwfans Gwarcheidwad gael ei ôl-ddyddio am hyd at 3 mis.

Gallwch hefyd ffonio'r Uned Lwfans Gwarcheidwad a gofyn am becyn cais.

Ffôn: 0300 200 3101
Ffôn testun 0300 200 3103

Dydd Llun i ddydd Gwener 8.30am i 4pm

## Budd-dal Tai

www.gov.uk/housing-benefit

Gallech gael Budd-dal Tai i'ch helpu i dalu eich rhent os ydych ar incwm isel.

Gall Budd-dal Tai talu am ran neu'r cyfan o'ch rhent. Mae faint rydych yn ei gael yn dibynnu ar eich incwm a'ch amgylchiadau.

Gallwch wneud cais am Fudd-dal Tai os ydych yn ddi-waith neu'n gweithio.

Efallai y byddwch hefyd yn gallu cael cymorth gyda'ch rhent os bydd eich budd-daliadau yn dod i ben.

Ni all Budd-dal Tai cael ei dalu ar gyfer gwresogi, dŵr poeth, ynni neu bwyd - os oes angen help arnoch, defnyddiwch gyfrifiannell budd-daliadau yn **www.gov.uk/benefits-calculators** i weld beth arall y gallech fod â hawl iddo.

Cewch wybod mwy yn **www.gov.uk/housing-benefit**

## Benthyciadau Trefnu

www.gov.uk/budgeting-loans

Gallech gael Benthyciad Trefnu Cyllidebu i helpu i dalu am bethau hanfodol fel rhent, dodrefn, dillad neu ddyledion hur bwrcas. Y swm lleiaf y gallwch ei fenthyg yw £100.

Mae Benthyciadau Trefnu yn ddi-log felly rydych ond yn ad-dalu'r hyn rydych yn ei fenthyg. Fel arfer, rhaid i chi ad-dalu'r benthyciad o fewn 104 wythnos.

Bydd yr ad-daliadau yn dod o'ch budd-daliadau. Bydd angen i chi gytuno ar ffordd arall o dalu os byddwch yn stopio cael budd-daliadau.

Gallwch wneud cais am fenthyciad os ydych wedi bod yn cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm am o leiaf 26 wythnos. Mae'n rhaid i chi dal i gael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm pan fydd eich cais yn cael ei asesu.

Cewch wybod mwy yn: **www.gov.uk/budgeting-loans**

## Help os oes gennych blentyn anabl

www.gov.uk/help-for-disabled-child

Gall eich cyngor lleol roi help os oes gennych blentyn anabl, gan gynnwys:

- gwasanaethau seibiant byr
- cynlluniau chwarae gwyliau
- gofal yn y cartref
- rhai cymhorthion ac addasiadau
- cymorth ariannol e.e. arian tuag at gostau teithio ar gyfer ymweliadau i'r ysbyty

Mae gan eich cyngor ddyletswydd i ddarparu'r gwasanaethau hyn o dan y Ddeddf Plant 1989. Mae rhai yn rhad ac am ddim - efallai y bydd y cyngor yn gofyn i chi gyfrannu tuag at rai eraill.

Os credwch y gallai eich plentyn fod yn gymwys, cysylltwch â'r tîm gwasanaethau cymdeithasol yn eich cyngor lleol.

Bydd gweithiwr cymdeithasol yn siarad â chi am anghenion eich teulu, gan gynnwys:

- iechyd
- gofal cymdeithasol
- addysg

Gelwir hyn yn 'asesiad anghenion' - bydd y gweithiwr cymdeithasol yn rhoi cyngor i chi ar beth i'w wneud nesaf.

Gallwch hefyd ofyn i'ch cyngor am grwpiau cymorth lleol ar gyfer gofalwyr a theuluoedd gyda phlant anabl.

Cewch wybod mwy yn: www.gov.uk/help-for-disabled-child

## Os yw eich partner yn y carchar neu yn y ddalfa

www.gov.uk/benefits-and-prison

Os bydd eich partner neu'ch plentyn wedi mynd i'r carchar neu yn y ddalfa, mae'n rhaid i chi ddweud wrth bwy bynnag sy'n talu eich budd-daliadau a chael gwybod:

- os bydd eich ceisiadau am fudd-dal yn cael eu heffeithio
- os gallwch hawlio budd-daliadau eraill

Efallai y byddwch yn dal i fod â hawl i fudd-daliadau os yw eich partner wedi mynd i'r carchar, cyn belled â'ch bod yn bodloni'r amodau hawlio budd-daliadau yn eich hawl eich hun.

## Gofalu am blant os ydych yn ysgaru neu'n gwahanu

www.gov.uk/looking-after-children-divorce

Gallwch ddewis sut i wneud trefniadau ar gyfer gofalu am eich plant os byddwch chi'n gwahanu oddi wrth eich partner.

Mae'r hyn y gallwch chi ei wneud yn wahanol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Fel arfer, gallwch chi a'ch cyn-bartner osgoi gwrandawiadau  llys os ydych chi'n cytuno ar:

- lle bydd y plant yn byw
- pryd y byddant yn treulio amser gyda phob rhiant

Gallwch ddefnyddio cyfreithiwr os ydych am wneud eich cytundeb yn gyfreithiol.

Gallwch gytuno ar gynhaliaeth plant ar yr un pryd neu ar wahân.

### Os na allwch gytuno ar bopeth

Gallwch ofyn i'r llys benderfynu ar unrhyw beth na allwch gytuno ar ôl cyfryngu neu gael help arall.

Rhaid i chi ddangos eich bod wedi mynychu cyfarfod i weld a yw cyfryngu'n iawn i chi cyn gwneud cais i lys. Ni fydd yn rhaid i chi mewn rhai achosion, er enghraifft, os bu cam-drin domestig neu wasanaethau cymdeithasol yn gysylltiedig.

Ni fyddwch fel arfer yn cael cymorth cyfreithiol i helpu gyda chostau llys oni bai eich bod yn gwahanu oddi wrth bartner sy'n cam-drin.

## Cychwyn Iach

www.healthystart.nhs.uk

Os ydych yn feichiog neu os oes gennych blentyn o dan 4 oed, gall y cynllun Cychwyn Iach eich helpu i brynu bwydydd sylfaenol fel llaeth neu ffrwythau.

Os ydych yn gymwys ar gyfer y cynllun cewch dalebau y gallwch eu defnyddio mewn dros 30,000 o siopau yn y DU.

Gallwch hefyd gael cwponau i'w cyfnewid am fitaminau am ddim yn addas ar gyfer:

- menywod beichiog
- menywod sy'n bwydo ar y fron
- plant rhwng 6 mis a 5 oed

Cewch wybod mwy yn:
**www.gov.uk/healthy-start/overview**